Strategaeth Gyfalaf 2019/20 Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

1.1 Adroddiad newydd yw'r strategaeth cyfalaf ar gyfer 2019/20. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o sut y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r heddlu. Ceir hefyd drosolwg o sut mae risg cysylltiedig yn cael ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol y dyfodol. Mae'r fformat newydd yn deillio o Reolaeth y Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod ymarfer a Nodyn Arweiniad traws adrannol (Cod TM) a gafodd ei ddiweddaru gan CIPFA yn 2017. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gadw at y Cod.

1.2 Mae'r fformat newydd yn cynnwys y brif Strategaeth Gyfalaf hon a ellir ei hystyried fel crynodeb weithredol o'r elfennau a restrir uchod. Mae Heddlu Gogledd Cymru erioed wedi cynnwys yr elfennau a restrir o fewn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flaenorol ac nid oes newid sylfaenol i'r strategaeth gyffredinol o'r llynedd. Mae nifer o'r elfennau yn dechnegol o ran eu natur. Y bwriad yw i'r brif Strategaeth Gyfalaf hon gael ei hysgrifennu mewn arddull hygyrch i wella dealltwriaeth o'r meysydd hyn. Mae manylion y Rhaglen Gyfalaf, Darpariaeth Refeniw ar gyfer Benthyca a Strategaeth Reoli a Buddsoddi'r Trysorlys 2019/20 i 2024/25 ynghlwm yn yr atodiadau.

2. Gwariant a Chyllido Cyfalaf

2.1 Gwariant cyfalaf yw lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a gaiff eu defnyddio am fwy na blwyddyn.

2.2 Cyflwynwyd y Rhaglen Gyfalaf ddrafft i'r Bwrdd Gweithredol Strategol ar 31 Ionawr 2019 a chytunwyd ar y testun ar gyfer cadarnhad terfynol y Strategaeth Gyfalaf hon. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynllunio gwariant cyfalaf fel y crynhoir isod, gyda'r manylion fel y cyflwynwyd i'r Bwrdd yn Atodiad A:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

	2017/18 presennol	2018/19 rhagolwg	2019/20 cyllideb	2020/21 cyllideb	2021/22 cyllideb	2022/23 cyllideb	2023/24 cyllideb	2024/25 cyllideb
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	18.4	12.9	6.7	6.6	7.9	5.1	6.6	3.0

2.3 **Llywodraethu**: Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i hadolygu'n llawn fel rhan o gylch cynllunio 2019/20. Roedd y Rhaglen Gyfalaf flaenorol yn dod i ben yn 2018/19 gyda chwblhau prif gynlluniau fel y cyfleusterau newydd yn Wrecsam ac uwchraddio a disodli system TG yr Ystafell Reoli. Dros y cyfnod 2011 i 2018 bydd £70m wedi'i fuddsoddi mewn seilwaith newydd fel y tynnir sylw ato isod:

- **Stadau –** 4 adeilad newydd sylweddol yn Llangefni, Llandudno, Llai a chanol tref Wrecsam ynghyd â 20+ o adnewyddiadau ac adleoliadau (£41m)
- **Fflyd –** Parhau gyda'r Rhaglen Amnewid Cerbydau a'i lleihau o £1.5m i £1.3m o 2019-20 o ostyngiadau'r Fflyd (£15m)
- **TG –** Uwchraddio'r rhwydwaith, amnewid gweinyddion, amnewid technoleg yr Ystafell Reoli, amnewid bwrdd gwaith ac amnewid unedau symudol (£14m)

2.4 Mae Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25 yn ganlyniad o'r Strategaeth Stadau newydd, Strategaeth Trawsnewidiad Digidol, strategaeth amnewid fflyd a chanlyniad y cylch cynllunio. Cynhaliwyd adolygiad ar ddiwedd y cylch i sicrhau fod offer diwedd bywyd yn cael eu hamnewid yn ôl yr angen. Gan fod nifer o'r cynlluniau Stadau a TG yn eu babandod, bydd angen cytuno ar achosion cyllideb manwl ar gyfer prosiectau unigol cyn iddynt gael eu comisiynu. Hysbysir y Rhaglen Gyfalaf i'r Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS) a'r Bwrdd Gweithredol Strategol (BGS). Rheolir meysydd gwaith penodol drwy'r Bwrdd Trawsnewidiad Digidol a'r Bwrdd Stadau.

2.5 Mae'r prif brosiectau cyfalaf ar gyfer 2019/20 yn cynnwys adnewyddu Gorsaf Heddlu Pwllheli £0.98m, Trawsnewidiad Digidol £3.5m ac amnewid cerbydau'n flynyddol £1.3m.

2.6 Rhaid i holl wariant cyfalaf gael ei gyllido, un ai o adnoddau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbynebau cyfalaf), o ffynonellau allanol (grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill) neu ddyled (benthyca, prydlesu a Menter Cyllid Breifat). Mae Grantiau Cyfalaf y Llywodraeth yn ariannu ychydig dros 1/3 o'r Rhaglen Amnewid Cerbydau (0.462m), sy'n gofyn i fwyafrif y Rhaglen gael ei hariannu o gronfeydd y CHTh. Mae cyllido arfaethedig y gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllido cyfalaf mewn £ miliynau

	2017/18 presennol	2018/19 rhagolwg	2019/20 cyllideb	2020/21 cyllideb	2021/22 cyllideb	2022/23 cyllideb	2023/24 cyllideb	2024/25 cyllideb
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Ffynonellau allanol	0.5	0.5	0.6	0.5	0.5	0.5	0.5	0.5
Adnoddau ei hun	15.2	6.6	4.9	2.2	1.5	0.9	2.3	1.3
Dyled	2.7	5.8	1.1	3.9	5.9	3.7	3.9	1.3
CYFANSWM	**18.4**	**12.9**	**6.7**	**6.6**	**7.9**	**5.1**	**6.7**	**3.1**

2.7 Mae dyled ond yn ffynhonnell gyllid dros dro, gan fod angen ad-dalu benthyciadau a phrydlesau. Disodlir hyn felly dros dro gan gyllido arall, fel arfer o refeniw a adwaenir fel darpariaeth refeniw sylfaenol (DRS). Fel arall, gellir defnyddio enillion o werthu asedau cyfalaf (a adwaenir fel derbynebau cyfalaf) i amnewid cyllid dyled. Mae DRS Arfaethedig fel a ganlyn:

Tabl 3: Amnewid cyllid dyled yn £ miliynau

	2017/18 presennol	2018/19 rhagolwg	2019/20 rhagolwg	2020/21 rhagolwg	2021/22 rhagolwg	2022/23 cyllideb	2023/24 cyllideb	2024/25 cyllideb
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Adnoddau ei hun	2.2	2.1	2.3	2.2	2.4	2.6	2.6	3.0

- Gwelir datganiad darpariaeth refeniw sylfaenol llawn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

2.8 Mesurir swm cyllid dyled gweddilliol cronnol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf a gyllidir gan ddyled ac yn gostwng a defnyddir DRS a derbynebau cyfalaf i ddisodli dyled. Disgwylir i'r GCC ostwng £1.2m yn ystod 2019/20, ac yna cynyddu £5.9m dros y 5 mlynedd ganlynol. Yn seiliedig ar y ffigyrau uchod am wariant a chyllido, mae GCC tybiedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Ofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	31.3.18 presennol	31.3.19 rhagolwg	31.3.20 rhagolwg	31.3.21 rhagolwg	31.3.22 rhagolwg	31.3.23 rhagolwg	31.3.24 rhagolwg	31.3.25 rhagolwg
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Cyfanswm GCC	**27.2**	**31.0**	**29.8**	**31.5**	**35.0**	**36.1**	**37.4**	**35.7**

2.9 **Rheoli asedau:** Er mwyn sicrhau fod yr asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd tymor hir, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd strategaeth rheoli asedau mewn lle. Manylir hyn yn y Strategaeth Stadau a'r Strategaeth Trawsnewidiad Digidol.

2.10 **Gwaredu asedau:** Pan nad oes angen ased gyfalaf bellach, gellir ei werthu fel y gall yr enillion, a adwaenir fel derbynebau cyfalaf, eu gwario ar asedau newydd i ad-dalu dyled. Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl derbyn unrhyw dderbynebau cyfalaf sylweddol yn y blynyddoedd ariannol i ddod.

Tabl 5: Derbynebau cyfalaf mewn £ miliynau

	17/18 presennol	18/19 rhagolwg	19/20 rhagolwg	20/21 rhagolwg	21/22 rhagolwg	22/23 rhagolwg	23/24 rhagolwg	24/25 rhagolwg
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Balans agoriadol	**3.7**	**1.5**	**0.0**	**2.0**	**2.0**	**1.6**	**1.7**	**0.8**
Derbynebau	**0.8**	**0.5**	**2.7**	**0.2**	**0.0**	**0.2**	**0.5**	**0.4**
Defnydd wedi'i gyllidebu	**3.0**	**2.0**	**0.7**	**0.2**	**0.4**	**0.1**	**1.4**	**0.5**
Balans	**1.5**	**0.0**	**2.0**	**2.0**	**1.6**	**1.7**	**0.8**	**0.7**

3. Rheoli'r Trysorlys

3.1 Mae rheoli'r trysorlys ynghylch cadw digon ond nid gormod o arian parod i fodloni anghenion gwario'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, wrth reoli'r risgiau ynghlwm. Buddsoddir arian parod dros ben hyd nes y bydd ei angen. Bodlonir prinder arian parod gan fenthyca, er mwyn osgoi balansau credyd neu orddrafftiau gormodol yn y cyfrif banc cyfredol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel arfer yn gyfoethog o ran arian parod yn y tymor byr wrth i incwm refeniw gael ei dderbyn cyn iddo gael ei wario. Ond mae'n dlawd o ran arian parod yn y tymor hir gan y tynnir gwariant cyfalaf cyn cael ei gyllido. Cyferbynnir arian parod refeniw dros ben yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf i leihau benthyca cyffredinol.

3.2 Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C) yn gosod y ffiniau y llywodraethir a monitrir gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys. Mae'r rhain yn seiliedig ar flaenoriaethu diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac arenillion yn olaf. Mae hyn yn lleihau incwm buddsoddiad posibl ond yn lleihau'r risg o golli arian drwy fuddsoddiadau sydd â mwy o risg iddynt. Mae'r isod yn crynhoi prif bwyntiau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

3.3 Strategaeth fenthyca: Prif amcanion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca yw cyflawni cost cyllid isel ond sicr wrth gadw hyblygrwydd os yw cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn aml yn gwrthdaro, ac felly mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio taro cydbwysedd rhwng benthyciadau tymor byr rhad (sydd ar gael ar hyn o bryd am oddeutu 0.95%) a benthyciadau cyfradd sefydlog tymor hir lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (2.0 i 3.0% ar hyn o bryd).

3.4 Cydbwysir y Strategaeth Fenthyca hefyd gan y defnydd o arian parod refeniw sydd ar gael (gan leihau buddsoddiadau) sy'n cael ei ddefnyddio yn hytrach na'i fenthyca, sy'n hysbys fel benthyca mewnol. Mae benthyca mewnol wedi'i ddefnyddio'n helaeth dros y blynyddoedd diwethaf gan arbed oddeutu £0.250m mewn taliadau llog y flwyddyn ac yn lleihau risg drwy beidio buddsoddi arian parod. Fodd bynnag, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu Cyfalaf wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fenthyca'n fewnol. Ffactor arall i'w ystyried yw nad yw incwm y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oherwydd Grant Pensiwn oddeutu £20m yn cael ei dalu mewn cyfandaliad bob mis Gorffennaf. Mae hyn wedi arwain at angen benthyca tymor byr am 6 i 8 mis o'r flwyddyn. Bydd angen gwarantu benthyca tymor hir ar ryw bwynt. Mae hyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'n hymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd.

3.5 Dengys lefelau arfaethedig cyfanswm dyled dros ben y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (sy'n cynnwys benthyca a rhwymedigaethau PFI) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod). Mae'r rhain yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol, sef amseru benthyca tymor hirach.

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	31.3.18 presennol	**31.3.19 rhagolwg**	**31.3.20 rhagolwg**	**31.3.21 rhagolwg**	**31.3.22 rhagolwg**	**31.3.23 rhagolwg**	**31.3.24 rhagolwg**	**31.3.25 rhagolwg**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
PFI	**11.4**	**10.7**	**9.9**	**9.1**	**8.2**	**7.3**	**6.2**	**5.1**
Benthyciadau Tymor Hir	**1.4**	**0.7**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**
Benthyciadau Tymor Byr	**10.0**	**16.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**
Dyled (yn cynnwys PFI a phrydlesi)	**22.7**	**27.3**	**9.9**	**9.1**	**8.2**	**7.3**	**6.2**	**5.1**

Gofyn Cyllido Cyfalaf	**27.2**	**31.0**	**29.8**	**31.5**	**35.0**	**36.1**	**37.4**	**35.7**

3.6 Canllaw statudol yw y dylai dyled barhau islaw y gofyn cyllido cyfalaf, oni bai yn y tymor byr. Fel y gellir gweld o dabl 6, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig, ond bydd angen i hyn fod yn rhan o'r asesiad pan fenthycir o'r newydd.

3.7 **Terfyn benthyca fforddiadwy:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhwymedig yn gyfreithiol i osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn a'i gadw o dan adolygiad. Yn unol â chanllaw statudol, gosodir "ffin weithrediadol" is fel lefel rhybudd os yw dyled yn nesáu at y terfyn.

Tabl 7: Dangosyddion Darbodus: Terfyn awdurdodedig a ffin weithrediadol ar gyfer dyled allanol mewn £m

	2018/19 terfyn	***2019/20 terfyn***	***2020/21 terfyn***	***2021/22 terfyn***	***2022/23 terfyn***	***2023/24 terfyn***
	£m	***£m***	***£m***	***£m***	***£m***	***£m***
Terfyn awdurdodedig – benthyca	*19.8*	*22.4*	*26.8*	*28.8*	*31.2*	*30.6*
Terfyn awdurdodedig – PFI a phrydlesi	*10.7*	*9.9*	*9.1*	*8.2*	*7.3*	*6.2*
Terfyn awdurdodedig – cyfanswm dyled allanol	***30.5***	***32.3***	***35.9***	***37.1***	***38.4***	***36.8***
Ffin weithrediadol – benthyca	*19.8*	*20.4*	*24.8*	*26.8*	*29.2*	*28.6*
Ffin weithrediadol – PFI a phrydlesi	*10.7*	*9.9*	*9.1*	*8.2*	*7.3*	*6.2*
Ffin weithrediadol – cyfanswm dyled allanol	***30.5***	***30.3***	***33.9***	***35.1***	***36.4***	***34.8***

3.8 **Strategaeth fuddsoddi:** Mae buddsoddiadau trysorlys yn codi o dderbyn arian parod cyn y caiff ei dalu allan eto. Ni ystyrir buddsoddiadau a wnaed am resymau gwasanaeth neu am fantais ariannol yn unig yn rhan o reoli'r trysorlys fel arfer.

3.9 Polisi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros arenillion sydd i ganolbwyntio ar leihau risg yn hytrach na chwyddo elw. Buddsoddir arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill neu fanciau ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled. Bydd arian a gedwir am dymhorau hirach yn cael

eu buddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, i fantoli'r risg o golled yn erbyn y risg o dderbyn elw islaw chwyddiant. Gall buddsoddiadau tymor agos a thymor hirach gael eu cadw mewn cronfeydd cronedig, lle mae rheolwr cronfa allanol yn gwneud penderfyniadau ar ba fuddsoddiadau penodol i'w prynu. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ofyn am ei arian yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 8: Buddsoddiadau rheoli'r Trysorlys mewn £ miliynau

	31.3.2018 presennol	**31.3.2019 rhagolwg**	**31.3.2020 rhagolwg**	**31.3.2021 rhagolwg**	**31.3.2022 rhagolwg**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Buddsoddiadau tymor agos	21.1	15.0	15.0	15.0	15.0
Buddsoddiadau tymor hirach	0	0	0	0	0
CYFANSWM	**21.1**	**15.0**	**15.0**	**15.0**	**15.0**

3.10 **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau a benthyca rheoli'r trysorlys yn ddyddiol. Maent felly'n cael eu hanfon i'r Pennaeth Cyllid a staff, sy'n gorfod gweithredu yn unol â strategaeth rheoli'r trysorlys a gymeradwyir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cydbwyllgor Archwilio. Cyflwynir adroddiadau diwedd blwyddyn a hanner blwyddyn ar weithgarwch rheoli'r trysorlys i'r BGS a'r Cydbwyllgor Archwilio. Bydd unrhyw adroddiadau ychwanegol angenrheidiol yn cael eu hadrodd drwy'r adroddiadau Cyllid chwarterol y BGS a'r BCS, neu'n uniongyrchol rhwng y Pennaeth Cyllid a'r CCA a'r PSC yn ôl yr angen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn gyfrifol am graffu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

3.11 **Rhwymedigaethau:** Yn ychwanegol at y ddyled a fanylir uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymroddedig i wneud taliadau yn y dyfodol i ofalu am ei gostau cronfeydd pensiwn. Mae cynllun pensiwn Swyddogion Heddlu yn gynllun di-nawdd sydd dan warant y Llywodraeth. Mae rhwymedigaethau yn £1,645m ar 31.3.18. Y gost i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw'r gyfradd cyfraniad gweithiwr. Mae hyn wedi'i gynyddu o 24.2% i 31% o 1 Ebrill 2019 ac wedi gorfod cael ei ariannu o'r gyllideb refeniw. Roedd y diffyg ar gronfa Pensiwn Staff ar £60m ar 31.3.18. Rheolir hyn hefyd drwy'r gyfradd gyfraniad sydd ar hyn o bryd wedi'i gosod ar 16.3%. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi neilltuo £1.2m fel darpariaeth i ofalu am risgiau o hawliadau yswiriant ac achosion cyflogaeth. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd mewn risg o orfod talu am hawliadau a gofnodir gyda Thribiwnlys Cyflogaeth Canol Llundain. Mae'r risgiau hyn wedi'u cydnabod fel Rhwymedigaethau wrth Gefn yn y Datganiad Cyfrifon, ond nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi neilltuo unrhyw arian

oherwydd mae'r hawliadau'n amodol ar apêl. Mae ansicrwydd hefyd o ran cywiro a chwantwm.

3.12 **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar dynnu rhwymedigaethau â disgresiwn gan Dîm y Prif Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i Brif Swyddog Cyllid. Monitrir y risg o rwymedigaethau sy'n crisialu ac angen taliad gan Gyllid Corfforaethol a'i adrodd i'r BCS a'r BGS yn ôl yr angen. Ceir manylion am rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Mawrth yn y Datganiad Cyfrifon.

3.13 **Goblygiadau Cyllideb Refeniw –** Er na chodir gwariant cyfalaf yn uniongyrchol i'r gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau, Darpariaeth Refeniw Sylfaenol (DRS) ar gyfer lleihau'r GCC a chyfraniad refeniw uniongyrchol i gyfalaf wedi'u codi ar refeniw, wedi'u gwrthbwyso gan unrhyw incwm buddsoddiad a dderbynnir. Adwaenir y gost flynyddol net fel costau cyllido. Cymharir hyn a'r ffrwd refeniw net h.y. y nifer a ariennir gan Dreth Cyngor Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a grantiau llywodraeth cyffredinol.

Tabl 9: Dangosydd Darbodus: Cyfran o gostau cyllido i ffrwd refeniw net

	2017/18 presennol	**2018/19 rhagolwg**	**2019/20 cyllideb**	**2020/21 cyllideb**	**2021/22 cyllideb**	**2022/23 cyllideb**	**2023/24 cyllideb**
Costau cyllido (£m)	4.9	4.1	4.1	4.2	4.2	4.3	4.3
Cyfran o ffrwd refeniw net	3.42%	2.90%	2.68%	2.65%	2.61%	2.58%	2.55%

3.14 **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur tymor hir iawn gwariant a chyllido cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw gwariant a dynnir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn am hyd at 40 mlynedd i'r dyfodol. Mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae hyn oherwydd bod ffrydiau refeniw neu gronfeydd wrth gefn mewn lle i ariannu'r Rhaglen fel yr amlinellir. Mae'n debygol y bydd angen cyllidebu adnoddau ychwanegol ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol tu hwnt i'r Rhaglen bresennol.

3.15 **Gwybodaeth a Sgiliau –** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyflogi staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac yn brofiadol mewn safleoedd uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Darperir hyfforddiant i holl staff sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi.

3.16 Os nad oes gan staff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, defnyddir ymgynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn

eu maes. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar hyn o bryd yn cyflogi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae'n cyflogi Wilks Head and Eve fel ymgynghorwyr eiddo. Mae'n cyflogi BDO fel ymgynghorwyr treth. Mae'r agwedd hon yn fwy cost effeithiol na defnyddio'r fath staff yn uniongyrchol. Mae'n sicrhau fod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i lefel o risg.

5. CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2018-19 i 2024-25

5.1 Trafodwyd drafft cyntaf Rhaglen Gyfalaf 2018-19 i 2024-25 yn ystod y cyfarfodydd cyllidebau a'u cynnwys fel drafft yn y CATC. Fodd bynnag, roedd angen gwaith pellach i gadarnhau'r cyllid ar gael, cadarnhau ychwanegiadau terfynol i'r rhaglen (o'r ychwaneged), diweddaru cyfnodedd a gwirio gofynion terfynol. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud cyn belled â phosibl yn awr a dangosir y manylion isod. Mae'n debygol y bydd ail-broffilio pellach o gynlluniau penodol. Mae'r prosiectau unigol yn amodol ar achosion busnes i'w cyflwyno i'r Byrddau perthnasol. Argymhellir fod yr isod i'w gynnwys yn y 'Strategaeth Gyfalaf' a fydd yn cadarnhau'r Rhaglen ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn ffurfiol a'r drafft am flynyddoedd i ddod (ynghyd â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys). Mae'r Strategaeth Gyfalaf i fod i gael ei harchwilio gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 21 Mawrth 2019. Ceir manylion am yr hyn sydd yn y Strategaeth Gyfalaf yn y tabl cyntaf, a ddilynir gan y Rhaglen Gyfalaf. Ceir manylion y prosiectau yn yr adrannau canlynol.



Rhaglen Gyfalaf 2018-19 i 2024-25

Ref	Description	Actual to to 31.3.18	2018-19 Orig Est with c/f	2018-19 Revised Est Jan 19	2018-19 Actual to Date Pd 9	2019-20 Est	2020-21 Est	2021-22 Est	2022-23 Est	2023-24 Est	2024-25 Est	Total Project Costs
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Estate Programme											
1	Retentions, Consultancy and QS	**7**	**25**	**25**	*0*	0						**32**
2	Sustainability Improvements	**573**	**155**	**155**	*0*	100	100	100	100	100	100	**1,328**
3	Wrexham new Custody and DHQ	**18,651**	**2,649**	**2,649**	*2,253*							**21,300**
4	Wrexham in town facility	**246**	**1,622**	**1,622**	*926*	170						**2,038**
5	Rhuddlan/Prestatyn works	**0**	**80**	**80**	*58*							**80**
6	Buckley Relocation	**41**	**0**	**0**	*0*							**41**
7	LlandudnoNew Build	**2,742**	**63**	**63**	*4*							**2,805**
8	Holyhead Port	**190**	**30**	**30**	*0*							**220**
9	OHU Relocation	**215**	**0**	**0**	*0*							**215**
10	**Estate Review 2**	**0**	**499**	**0**	*0*	0	0	0	0	0	0	**0**
11	*Pwllheli PS*	**0**	**0**	**0**		980						**980**
12	*Conwy PS **	**0**	**0**	**0**		0						**0**
13	*Holyhead PS*	**0**	**0**	**0**			772	2,570				**3,342**
14	*FHQ Complex + Canteen*	**0**	**0**	**0**			257					**257**
15	*Western Estate Area*	**0**	**0**	**0**			515					**515**
16	*VCC / Vehicle Workshop*	**0**	**0**	**0**			1,545	1,325				**2,870**
17	*Dolgellau PS*	**0**	**0**	**0**					545	2,391		**2,936**
18	*Abergele PS*	**0**	**0**	**0**							391	**391**
19	*Llanrwst PS*	**0**	**0**	**0**							178	**178**
20	*Deeside PS*	**0**	**0**	**0**						1,400	575	**1,975**
21	*Mold PS*	**0**	**0**	**0**					2,834			**2,834**
22	*Rhosllanerchrugog PS*	**0**	**0**	**0**							189	**189**
23	*Re locate/ co locate/ vacate*	**0**	**0**	**0**		185	127					**312**
24	Custody CCTV	**23**	**52**	**52**	*0*							**75**
25	Purchase of JCC	**0**	**2,739**	**2,739**	*2,806*							**2,739**
	Total Building Works	**22,688**	**7,914**	**7,415**	**6,047**	**1,435**	**3,316**	**3,995**	**3,479**	**3,891**	**1,433**	**47,652**
	Vehicles and Other Equipment											
26	Vehicle Purchase Replacement Programme	**7,481**	**2,233**	**2,233**	*971*	1,405	1,300	1,300	1,300	1,300	1,300	**17,619**
27	PSU Vehilces (Revenue Stream replacemnt programme)	**555**	**0**	**0**	*0*			555				**1,110**
28	Ports CCTV and ANPR and equipment (Check KN)	**125**	**104**	**150**	*0*							**275**
29	Dexun System (SCC)	*0*				78						78
30	Intoxilators x 3	*0*					30					30
31	ANPR replacement	*0*					470					470
32	Fingerprint Capture and Enhancement Equipment	*0*				62						62
33	Collision Surveying Equipment	*0*				131						131
	Total Vehicles and Other Equipment	**8,161**	**2,337**	**2,383**	**971**	**1,676**	**1,800**	**1,855**	**1,300**	**1,300**	**1,300**	**19,775**

Ref	Description	Actual to to 31.3.18	2018-19 Orig Est with c/f	2018-19 Revised Est Jan 19	2018-19 Actual to Date Pd 9	2019-20 Est	2020-21 Est	2021-22 Est	2022-23 Est	2023-24 Est	2024-25 Est	Total Project Costs
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Information Technology and Communication Equipment											
34	Desk Top Replacement (Replacement Programme)	***963***	**588**	**588**	*528*	462	707	200	300	300	300	**3,820**
35	Control Room Technology Replacemnt	***1,650***	**1,281**	**1,281**	*871*							**2,931**
36	Server Replacement	***672***	**0**	**0**	*0*			700				**1,372**
37	Business Systems Servers (Replacement Programme)	***162***	**14**	**1**	*1*			145				**308**
38	Criminal Justice Digital Project	***613***	**227**	**0**	*0*							**613**
39	Mobile data devices	***825***	**231**	**231**	*70*	0	460		0	460		**1,976**
40a	Airwave (replacement units)	***62***	**96**	**596**	*0*							**658**
40b	Airwave replacement ESN		**0**	**0**	*0*	0		1,000				**1,000**
41	Wrexham Prison IT and Connection	***86***	**0**	**0**	*0*							**86**
42	DFU Server replacement	***149***	**119**	**119**	*109*		20			270		**558**
43	Intranet/Social Media	***0***	**55**	**55**	*2*							**55**
44	Cloud Storage	***0***	**79**	**79**	*0*							**79**
45	Mobile Responder App	***0***	**268**	**0**	*0*	268						**268**
46	EIS Replacement	***263***	**130**	**130**	*117*							**393**
47	CHORUS Upgrade	***0***	**30**	**30**	*30*							**30**
48	NEP Infrastructure/Sail Point/Internet Links	***0***	**0**	**0**	*0*	471						**471**
49	Connectivity Software	***0***	**0**	**0**	*0*	85						**85**
50	Wifi	***0***	**0**	**0**	*0*	250	250					**500**
51	Digital Workplace audio visiual	***0***	**0**	**0**	*0*	200						**200**
52	Single on line Home	***0***	**0**	**0**	*0*	40						**40**
53	**EOL (End of Life - various systems)**	***0***	**0**	**0**	*0*	0						**0**
54	*CISCO Telephony*	***0***	**0**	**0**	*0*	250						**250**
55	*Email (then re-used for NEP)*	***0***	**0**	**0**	*0*	220						**220**
56	*Nexus Memory Upgrade*	***0***	**0**	**0**	*0*	50						**50**
57	*Backup*	***0***	**0**	**0**	*0*	130						**130**
58	*LAN*	***0***	**0**	**0**	*0*	80						**80**
59	*Thin Clients*	***0***	**0**	**0**	*0*	50						**50**
60	*Risk Register*	***0***	**0**	**0**	*0*	100						**100**
61	*ICAD Upgrade*	***0***	**0**	**0**	*0*	500						**500**
62	Body Worn Video	*0*				400				400		800
	Total Information Technology and Communication	***5,445***	**3,118**	**3,110**	***1,728***	**3,556**	**1,437**	**2,045**	**300**	**1,430**	**300**	**17,623**
	Total Capital Expenditure	***36,294***	**13,369**	**12,908**	***8,746***	**6,667**	**6,553**	**7,895**	**5,079**	**6,621**	**3,033**	**85,050**

5.2 Stadau

5.2.1 2018-19 - cyllideb ddiwygiedig ddrafft £7.415, Gwariant i Pd 9 £6.047m.

- Cyllideb gynaliadwyedd, defnyddir y gyllideb hon i ariannu elfennau cynaliadwyedd prosiect Llai.
- Mae Pencadlys Rhanbarthol yr Heddlu yn Wrecsam yn awr ar waith. Mae'r prosiect ar gyllideb ond nid oes lle am ofynion ychwanegol o fewn y Gyllideb Gyfalaf. Mae swm ychwanegol o £0.096m ar gyfer cysylltedd Tonnau Awyr wedi'i ariannu o'r Gyllideb Gyfalaf Tonnau Awyr/ESN. Bydd angen i unrhyw ddodrefn ac offer ychwanegol na ofelir gan gyllideb y prosiect gael ei ariannu gan gyllidebau presennol eraill lle bo'n bosibl, gyda £0.2m yn cael ei glustnodi wrth gefn fel y dywedir yn yr adran refeniw.

- Canol Tref Wrecsam – oedi oherwydd bod dod o hyd i asbestos ar y safle wedi rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae'r costau'n cael eu hadolygu ac ar hyn o bryd rhagwelir eu bod £0.170m dros y gyllideb wreiddiol. Mae'r swm hwn wedi'i ychwanegu at y gyllideb ddrafft bresennol. Mae'n debygol y bydd costau pellach o ran yr Orsaf Ganol Tref dros dro. Ariennir y rhain drwy refeniw wrth gefn.
- Mae £0.080m ychwanegol wedi'i gynnwys am waith yn Rhuddlan a Phrestatyn yn dilyn colli'r lleoliad a rentwyd ym Mhrestatyn. Mae hyn wedi'i ariannu o'r Rhaglen Gyfalaf.
- Prynwyd yr Ystafell Reoli ar y Cyd ym Mhrestatyn. Bydd hyn yn arwain at arbedion refeniw o £0.1m y flwyddyn o'i gymharu â'r costau rhentu presennol. Newidiodd y rheolau ynghylch Treth Dir o'r achos busnes gwreiddiol gyda Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfraddau hyn o 1.4.2018. Mae hyn wedi arwain at £0.063m o gostau unigryw ychwanegol a ariennir o arbediad rhentu 2018-19.

5.2.2 **Stadau 2018-19 i 2024-25** – Mae'r cynigion a ddangosir yn seiliedig ar gasgliad yr Adolygiad Stadau. Mae'r Cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno wedi'u blaenoriaethu gan ddefnyddio'r matrics a amlinellir fel rhan o'r adolygiad. Bydd angen i'r cynlluniau unigol gael eu datblygu ymhellach a'u cytuno yn ôl bob cynllun. Y cynllun aeddfetaf yw adnewyddu gorsaf heddlu Pwllheli. Mae'r cynnig hwn wedi'u drafod o'r blaen yn fanwl a chytunwyd arno ar y Bwrdd Stadau. Mae'r fersiwn ddiweddaraf derfynol yn cael ei symud ymlaen i gael ei chytuno'n ffurfiol.

5.3 Cerbydau ac Offer

5.3.1 **2018-19** - Cyllideb ddiwygiedig ddrafft £2.383m, gwariant hyd yma £0.971m. Mae'r gyllideb yn cynnwys £0.660m a barhawyd o 2017-18. Gall fod rhywfaint o lithro i 2019-20 gan ddibynnu ar ddyddiadau cyflawni sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae grant ychwanegol o £0.115m wedi'i warantu tuag at uwchraddio system ANPR y Porthladdoedd.

5.3.2 **2019-20 i 2024-25** - Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen newydd ar gyfer Cerbyd sy'n £1.3m y flwyddyn, y rhaglen newydd PSU a swm ychwanegol o'r ychwaneged 2019-20. Unwaith mae'r system Telemateg wedi'i gweithredu, gellir edrych ar y lefel o'r Fflyd sydd angen eu newid. Mae symiau ar gyfer amnewid y system Dexun (SCC), anadlyddion alcohol yn y ddalfa, offer olion bysedd ac offer ymchwilio i wrthdrawiadau wedi'u cynnwys. Mae'r rhain wedi'u nodi fel offer sy'n cyrraedd diwedd eu hoes ac yn hanfodol ar gyfer cyflawniad gweithrediadol. Mae amnewid holl gamerâu Adnabod Rhifau Plât Awtomatig (ANPR) wedi'i gynnwys. Er hynny,

mae angen manylu ac archwilio hyn gan fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu oddeutu hanner o'r rhandal gwreiddiol.

5.4 Offer TG a Chyfathrebiadau,

5.4.1 2018-19 – cyllideb ddiwygiedig ddrafft £3.110m, Gwariant hyd yma £1.728m.

- Amnewid bwrdd gwaith, cyllideb yn cynnwys £0.172m gan gario ymlaen ar gyfer uwchraddio arfaethedig fel rhan o'r symudiadau yn Wrecsam.
- Mae taliadau ar gyfer uwchraddio'r Ystafell Reoli yn cael eu ar fodloni cerrig milltir. Gan fod y rhai wedi'u bodloni, mae taliadau yn cael eu talu yn ôl. Mae taliadau cerrig milltir diwygiedig wedi'u gwneud, gyda 20% o swm dargadw ar hyn o bryd. Gall fod costau ychwanegol o ganlyniad i'r mater yn dilyn mynd yn fyw. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch a ellir adfer unrhyw un o'r rhain. Fel arall, byddent angen cael eu hariannu.
- Unedau Tonnau Awyr - mae angen i Unedau Tonnau Awyr gael eu hamnewid oherwydd yr oedi cenedlaethol wrth weithredu Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN). Mae angen amnewid cyfanswm o 1,056 uned gan y bydd eu sglodyn GPS yn methu ar ddiwedd mis Mawrth 2019. Bwriedir ariannu hyn o'r refeniw nas gwariwyd digon ohono. Cost yr amnewidiadau hyn yw £0.501m. Roedd angen £0.096m pellach i wella derbyniad Tonnau Awyr yn Llai.

5.4.2 **2019-20 i 2024-25** – Mae'r adran hon yn cynnwys y rhaglen amnewid. Mae amnewid 'Bwrdd Gwaith' yn cynnwys byrddau gwaith, gliniaduron a'r teclynnau personol 'dau mewn un'. Mae nawdd ychwanegol o £0.4m i ysgogi'r rhai dau mewn un a £0.062m ychwanegol ar gyfer y swyddi twf wedi'u cynnwys. Mae llinellau 48 i 61 yn adlewyrchu'r buddsoddiad Digidol ac offer diwedd oes a fanylir yn ystod y cylch cyllideb. Mae hyn yn cynnwys elfen gyfalaf y Rhaglen Alluogi Genedlaethol. Rheolir y buddsoddiadau hyn drwy'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewidiad Digidol. Mae swm o £0.4m yn gynwysedig yn 2019-20 ar gyfer amnewid offer Camerâu Cyrff. Mae achos busnes yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd yn ei gylch.

5.5 Nawdd – yn seiliedig ar y gyllideb refeniw bresennol, grantiau a ragwelir, a'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael. Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ac ariennir hi fel y dangosir isod.

Ref	Description		2018-19 Orig Est with c/f	2018-19 Revised Est Jan 19		2019-20 Est	2020-21 Est	2021-22 Est	2022-23 Est	2023-24 Est	2024-25 Est	Total Fundinmg 18-19 to 24-25
			£000	£000	*£000*	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Funding											
	Home Office Grant		**462**	**462**		567	462	462	462	462	462	**3,339**
	Revenue Contribution		**1,432**	**2,047**		1,712	1,243	1,116	838	838	838	**8,632**
	Earmarked Reserves		**2,947**	**2,558**		2,549	770	0	0	0	0	**5,877**
	Capital Recipts		**2,851**	**2,008**		674	155	377	100	1,420	475	**5,209**
	Borrowing for Estates		**5,124**	**5,294**		1,165	3,216	3,895	3,379	3,141	958	**21,048**
	Borrowing for replacement programme		**553**	**539**		0	707	2,045	300	760	300	**4,651**
	Total Funding		**13,369**	**12,908**		6,667	6,553	7,895	5,079	6,621	3,033	48,756

5.6 Mae'r nawdd yn cynnwys 'benthyca' £25.7m ychwanegol (gall hyn fod yn 'fewnol' neu'n fenthyca allanol'). Mae'r mwyafrif o hwn ar gyfer ariannu'r Rhaglen Stadau. Dros yr un cyfnod mae'r cyfanswm benthyca (a adwaenir fel y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC)) wedi'i gyllidebu i gael ei ostwng £12.3m drwy ad-dalu benthyciadau. Mae hynny yn gynnydd net o £13.4m dros 7 blynedd. (Wedi diweddaru: Gostyngiad o £17.3m gan gynnwys taliadau PFI, symudiad net o £8.4m). Lleiheir swm y cyfraniad refeniw i'r lleiafswm angenrheidiol i ariannu'r rhaglen amnewid Cerbydau o £0.838m. Mae'r swm hwn ynghyd â'r grant Cyfalaf o £0.462m yn angenrheidiol i ariannu amnewid cerbydau. Mae cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio i ariannu £5.8m o'r Rhaglen. Mae'r mwyafrif llethol o hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu buddsoddiad digidol. Mae derbynebau cyfalaf wedi'u proffilio tuag at ddiwedd y rhaglen i reoli'r risg o'r derbynebau ddim yn ymddangos.

ATODIAD B

Datganiad Blynyddol Darpariaeth Refeniw Sylfaenol (ar gyfer ad-dalu dyled)

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygiad) 2008 (SI 2008/588 (W.59)) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer adbrynu dyled. Mae Canllaw ar Ddarpariaeth Refeniw Sylfaenol wedi'i rannu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae angen i awdurdodau lleol "ystyried" Canllaw o'r fath o dan adran 21(1B) Deddf Llywodraeth Leol. Diweddarwyd y canllaw diwethaf gan Weinidogion yn 2018.

Y pedwar opsiwn DRS sydd ar gael yw:

- Opsiwn 1: Dull Rheoleiddiol
- Opsiwn 2: Dull CFR
- Opsiwn 3: Dull Oes Ased
- Opsiwn 4: Dull Dibrisio

DS Nid yw hyn yn eithrio dulliau darbodus eraill.

Ni fydd gwariant cyfalaf a dynnwyd yn ystod 2018-19 yn amodol ar gost DRS tan y flwyddyn nesaf yn dilyn gweithredu'r ased.

DRS yn 2019-20: Gall Opsiynau 1 a 2 gael eu defnyddio yn unig ar gyfer gwariant cyfalaf a dynnir cyn 1 Ebrill 2018 ac unrhyw wariant cyfalaf a gefnogir (h.y. costau cyllido a ystyrir o gael eu cefnogi drwy Grant Cymorth Refeniw o Lywodraeth Ganolog) a ariannwyd o fenthyca. Mae dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf nas cefnogir yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (a all gael eu defnyddio hefyd ar gyfer gwariant cyfalaf cefnogol os yw'r Comisiynydd yn dewis hynny).

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymhwyso Opsiwn 2 o ran gwariant cyfalaf a gefnogir hanesyddol, gan gymhwyso 4% o gost o'r balans ar ddiwedd y flwyddyn i ddod.

Opsiwn 3 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran gwariant cyfalaf nas cefnogir a gyfrifir ar sail linol gan arwain at randaliadau cyfartal blynyddol fel yr amlinellir isod.

Dull rhandaliadau cyfartal

DRS yw'r swm a roddir gan y fformiwla ganlynol:

A – B
C
Os mai

A yw'r swm o wariant cyfalaf o ran yr ased a ariennir gan drefniadau benthyca neu gredyd
B yw'r cyfanswm darpariaeth a wnaed cyn y flwyddyn ariannol bresennol o ran y gwariant hwnnw
C yw'r nifer cynhwysol o flynyddoedd ariannol o'r flwyddyn bresennol hyd at pan ddiwedda oes dybiedig yr ased.

Darperir oes yr ased gan Wilks Head and Eve fel ymgynghorwyr eiddo o ran asedau stad a safbwynt proffesiynol yn achos asedau bywyd byrrach.

Os cynigir erioed i amrywio telerau'r Datganiad DRS gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, daw datganiad diwygiedig i sylw'r Cydbwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Bydd DRS o ran prydlesi a ddaeth i'r Fantolen o dan y Cod Ymarfer seiliedig ar IFRS yn cyfateb i'r ad-daliad cyfalaf blynyddol ar gyfer y rhwymedigaeth ohiriedig gysylltiedig.

Mae'r uchod yn cydymffurfio gyda'r canllaw ar Ddarpariaeth Refeniw Sylfaenol fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru.

Atodiad C

Datganiad Drafft Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddiad 2018-19 i 2022-23

1. Cyflwyniad

1.1 Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian parod, benthyca a buddsoddiadau'r sefydliad, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo i nodi, monitro a rheoli risgiau ariannol felly'n ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus y sefydliad.

1.2 Mae rheoli risgiau'r trysorlys yn y sefydliad yn cael ei gynnal o fewn fframwaith Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus *Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (y Cod CIPFA). Mae'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. At hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru rannu Canllaw diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Mawrth 2010 sy'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo strategaeth fuddsoddiadau cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllaw Llywodraeth Cymru.

1.3 **Strategaeth ddiwygiedig:** Yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru, gofynnir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys os newidia'r tybiaethau y mae'r adroddiad hwn wedi'u seilio arnynt yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid annisgwyl mawr mewn cyfraddau llog, yn rhaglen gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu yn y lefel o'i falans buddsoddiad.

2. Cyd-destun Allanol

2.1 **Cefndir economaidd:** Mae cynnydd y DU yn trafod ei hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'i threfniadau masnachu yn y dyfodol, yn parhau i fod yn ddylanwad mawr ar strategaeth rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2019/20.

2.2 Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) y DU ar gyfer mis Hydref i fyny 2.4% blwyddyn ar flwyddyn. Mae hyn ychydig yn is na'r rhagolwg consensws ac yn fras yn unol ag Adroddiad Chwyddiant mis Tachwedd Banc Lloegr. Dangosodd y data marchnad llafur diweddaraf ar gyfer mis Hydref 2018 fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi ychydig i 4.1% tra roedd y gyfradd gyflogaeth o 75.7% y cydradd uchaf ar gofnod. Mae'r gyfradd dwf flynyddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflog gan eithrio bonysau yn

3.3% wrth i gyflogau barhau i godi'n gyson a darparu rhywfaint o dynnu ar chwyddiant cyffredinol. Wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant, tyfodd cyflogau real 1.0%, lefel sy'n parhau'n debygol o gael ychydig o effaith ar wariant defnyddwyr.

2.3 Roedd y cynnydd mewn twf GDP chwarterol i 0.6% yn Ch3 o 0.4% yn y chwarter blaenorol oherwydd ffactorau perthnasol i'r tywydd yn hybu defnydd tai cyffredinol ac adeiladu dros yr haf yn dilyn gwendid perthnasol i dywydd yn Ch1. Ar 1.5%, mae twf GDP blynyddol yn parhau i fod islaw'r tueddiad. Gan edrych ymlaen, mae Banc Lloegr, yn ei Adroddiad Chwyddiant mis Tachwedd, yn disgwyl i dwf GDP fod oddeutu 1.75% ar gyfartaledd dros y gorwel rhagolwg. Mae hyn ar yr amod fod ymadawiad y DU o'r UE yn eithaf esmwyth.

2.4 Yn dilyn penderfyniad Banc Lloegr i gynyddu Cyfradd Banc i 0.75 ym mis Awst, nid oes newidiadau i bolisi ariannol wedi'u gwneud ers hynny. Fodd bynnag, mae'r Banc yn disgwyl os yw'r economi yn parhau i ddatblygu yn unol â'i ragolwg ar gyfer mis Tachwedd, bydd angen cynnydd pellach mewn Cyfradd Banc i ddychwelyd chwyddiant i'r targed o 2%. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn parhau i ailadrodd y bydd unrhyw gynnydd pellach ar gyflymder graddol ac wedi cyfyngu mewn hyd.

2.5 Tra mae twf yn yr UD wedi arafu dros 2018, mae'r economi'n parhau i fod yn gadarn. Gwnaeth Cronfa wrth Gefn Ffederal yr UD barhau a'i duedd i dynhau drwy gydol 2018, gan wthio cyfraddau i'r 2%-2.25% ym mis Medi. Mae marchnadoedd yn parhau i ddisgwyl cynnydd cyfradd arall ym mis Rhagfyr, ond mae disgwyliadau'n pylu y bydd llamau pellach a ddisgwyliwyd yn flaenorol yn 2019 yn dod gan fod rhyfeloedd masnach yn llusgo gweithgarwch economaidd.

2.6 **Rhagolwg credyd:** Mae'r pedwar grŵp bancio mawr yn y DU yn awr wedi rhannu eu hadrannau bancio manwerthu a buddsoddi i endidau cyfreithiol ar wahân o dan ddeddfwriaeth gosod terfyn. Banc yr Alban, Banc Barclays y DU, Banc HSBC y DU, Banc Lloyds, Banc Cenedlaethol Westminster, Banc Brenhinol Yr Alban a Banc Ulster yw'r banciau gosod terfyn sydd yn awr ond yn cynnal gweithgarwch bancio manwerthu risg is. Marchnadoedd Corfforaethol Banc Barclays, Banc HSBC, Banc Lloyds a Marchnadoedd NatWest yw'r banciau buddsoddi. Mae asiantaethau statws credyd wedi addasu statws rhai o'r banciau hyn gyda'r banciau gosod terfyn fel arfer yn cael statws gwell na'r rhai sydd ddim â therfyn.

2.7 Cyhoeddodd Banc Lloegr ei adroddiad diweddaraf ar brofi straen banciau. Dangosodd fod holl endidau a gafwyd yn y dadansoddiad wedi'u hystyried wedi llwyddo yn y prawf unwaith yr ystyriwyd y lefelau cyfalaf a chamau lliniaru posibl a dybiwyd o fod wedi'u cymryd gan reolwyr. Ni ofynnodd Banc Lloegr i unrhyw fanc godi cyfalaf ychwanegol.

2.8 Mae banciau Ewrop yn ystyried eu hagwedd at Brexit, gyda rhai yn edrych ar greu is-gwmnïau yn y DU er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i fasnachu yma. Pery cryfder credyd y banciau newydd hyn yn anhysbys, er tybir fod y cyfle am gymorth

rhieniol yn uchel iawn os fydd ei angen erioed. Mae'r ansicrwydd a achosir gan drafodaethau hir rhwng y DU a'r UE yn pwyso ar werth credyd banciau'r DU ac Ewrop gyda gweithrediadau sylweddol yn y ddau awdurdod.

2.9 **Rhagolwg cyfradd llog:** Yn dilyn y cynnydd yn y Gyfradd Fanc i 0.75% ym mis Awst 2018, mae ymgynghorydd rheoli'r trysorlys y Comisiynydd sef Arlingclose yn rhagweld dwy naid 0.25% ychwanegol yn ystod 2019 i fynd â chyfraddau llog swyddogol y DU i 1.25%. Mae Pwyllgor Polisi Ariannol (PPA) Banc Lloegr wedi cynnal disgwyliadau ar gyfer cynnydd cyfradd araf a chyson dros y gorwel rhagolwg. Mae'r PPA yn parhau i ddangos tuedd at bolisi ariannol tynnach ond yn amharod i wthio disgwyliadau cyfradd llog yn rhy gryf. Cred Arlingclose fod aelodau'r PPA yn ystyried fod cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd eraill. Cred y bydd Cyfradd Banc uwch yn arf polisi mwy effeithiol os bydd risgiau dirywiol Brexit yn crisialu pan fydd angen toriadau cyfradd.

2.10 Mae amgylchfyd economaidd y DU yn parhau'n eithaf meddal, er bod y data marchnad lafur i'w weld yn gryf. Barn Arlingclose yw bod yr economi'n parhau i wynebu rhagolwg heriol wrth iddi adael yr Undeb Ewropeaidd a bod twf Ardal yr Ewro yn meddalu. Tra tybir y bydd cytundeb Brexit a rhywfaint o gytundeb wedi'i gyrraedd o ran trosglwyddiad a threfniadau masnachu yn y dyfodol cyn i'r DU adael yr UE, mae'r posibilrwydd o Brexit "dim cytundeb" yn parhau i grogi dros weithgarwch economaidd. Fel y cyfryw, ystyrir y risgiau i'r rhagolwg cyfradd llog yn gadarn i'r dirywiad.

2.11 Mae arenillion gilt ac felly cyfraddau benthyca tymor hir wedi parhau ar lefelau isel. Ond disgwylir symudiad ar i fyny o lefelau presennol yn seiliedig ar ragamcanion cyfraddau llog Arlingclose, oherwydd cryfder economi'r UD a chanllaw ymlaen Banc Canolog Ewrop ar gyfraddau uwch. Rhagwelir i arenillion gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd barhau oddeutu 1.7% a 2.2% yn y drefn honno dros y gorwel rhagweld cyfradd llog. Fodd bynnag mae anwadalwch sy'n codi o ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn debygol o barhau i gynnig cyfleoedd benthyca.

2.12 Mae rhagolwg cyfradd llog ac economaidd mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose ynghlwm yn Atodiad C.1.

3. Cyd-destun Lleol

3.1 Ar 31 Mawrth 2019, disgwylir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw £16.7m o fenthyca a £15m o fuddsoddiadau. Amlinellir hyn mewn mwy o fanylder yn ***Atodiad C.2***. Ceir newidiadau rhagolwg yn y symiau hyn yn y dadansoddiad o'r fantolen yn nhabl 1 isod.

	31.3.18 Presennol £m	31.3.19 Amcangyfrif £m	31.3.20 Rhagolwg £m	31.3.21 Rhagolwg £m	31.3.22 Rhagolwg £m	31.3.23 Rhagolwg £m	31.3.24 Rhagolwg £m	31.3.25 Rhagolwg £m
Cronfa Gyffredinol CFR	27.2	31.1	29.8	31.5	35.0	36.1	37.4	35.7
Llai: Rhwymedigaethau dyled eraill *	(11.3)	(10.6)	(9.9)	(9.1)	(8.2)	(7.3)	(6.2)	(5.1)
Benthyciadau CFR	**15.9**	**20.5**	**19.9**	**22.4**	**26.8**	**28.8**	**31.2**	**30.6**
Llai: Benthyca allanol (tymor hir)**	(1.3)	(0.7)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Llai: Benthyca allanol (tymor byr)**	(10.0)	(16.0)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Benthyca mewnol	**4.6**	**3.8**	**19.9**	**22.4**	**26.8**	**28.8**	**31.2**	**30.6**
Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(25.3)	(20.4)	(18.8)	(17.9)	(17.3)	(17.1)	(15.7)	(15.1)
Llai: Cyfalaf gweithio	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2
Benthyca newydd / (Buddsoddiadau)	**(20.5)**	**(16.4)**	**1.3**	**4.7**	**9.7**	**11.9**	**15.7**	**15.7**

Tabl 1: Crynodeb mantolen a rhagolwg

* prydlesi cyllid, rhwymedigaethau PFI a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

** ond yn dangos benthyciadau y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymroddedig iddynt ac sy'n eithrio ail-ariannu opsiynol

3.2 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yn adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw cynnal benthyca a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol. Adwaenir hwy weithiau fel benthyca mewnol.

3.3 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd GCC cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ac i gadw hylifedd ar y £10m a dargedwyd. Bydd angen benthyca hyd at £25.7m dros y cyfnod rhagolwg. Cyflawnir hyn ar hyn o bryd drwy fenthyca tymor byr. Mae'r penderfyniad i fenthyca ar sail tymor hirach yn cael ei adolygu gydag ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys.

3.4 Mae Cod Darbodus *CIPFA am Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* yn argymell y dylai cyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn is na'i ragolwg GCC uchaf dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl cydymffurfio gyda'r argymhelliad hwn yn ystod 2019/20.

3.5 **Meincnod rhwymedigaeth:** Cymharu benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn strategaeth amgen. Mae meincnod rhwymedigaeth wedi'i gyfrifo'n dangos y lefel risg isel o fenthyca. Mae hyn yn derbyn yr un rhagolygon â thabl 1 uchod, ond bod arian balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw i lefel sylfaenol £10m ar bob diwedd blwyddyn. Gwneir hyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau risg o gredyd.

Tabl 2: Meincnod rhwymedigaeth

	31.3.18 Presennol £m	**31.3.19 Amcangyfrif £m**	**31.3.20 Rhagolwg £m**	**31.3.21 Rhagolwg £m**	**31.3.22 Rhagolwg £m**	**31.3.22 Rhagolwg £m**	**31.3.22 Rhagolwg £m**	**31.3.22 Rhagolwg £m**
Benthyciadau GCC	15.9	**20.5**	**19.9**	**22.4**	**26.8**	**28.8**	**31.2**	**30.6**
Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(25.3)	(20.4)	(18.8)	(17.9)	(17.3)	(17.1)	(15.7)	(15.1)
A: Cyfalaf gweithio	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2
A: Buddsoddiadau sylfaenol	0.0	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0
Meincnod Rhwymedigaeth	**9.8**	**10.3**	**11.3**	**14.7**	**19.7**	**21.9**	**25.7**	**25.7**

3.6 Canllaw statudol yw y dylai dyled barhau islaw y gofyn cyllido cyfalaf, oni bai yn y tymor byr. Fel y gellir gweld o dabl 6, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig, ond bydd angen i hyn fod yn rhan o'r asesiad pan fenthycir o'r newydd.

3.7 **Strategaeth fenthyca:** Prif amcanion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca yw cyflawni cost cyllid isel ond sicr wrth gadw hyblygrwydd os yw cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn aml yn gwrthdaro, ac felly mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio taro cydbwysedd rhwng benthyciadau tymor byr rhad

(sydd ar gael ar hyn o bryd am oddeutu 0.95%) a benthyciadau cyfradd sefydlog tymor hir lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (2.0 i 3.0% ar hyn o bryd).

3.8 Cydbwysir y Strategaeth Fenthyca hefyd gan y defnydd o arian parod refeniw sydd ar gael (gan leihau buddsoddiadau) sy'n cael ei ddefnyddio yn hytrach na'i fenthyca, sy'n hysbys fel benthyca mewnol. Mae benthyca mewnol wedi'i ddefnyddio'n helaeth dros y blynyddoedd diwethaf gan arbed oddeutu £0.250m mewn taliadau llog y flwyddyn ac yn lleihau risg drwy beidio buddsoddi arian parod. Fodd bynnag, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu Cyfalaf wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fenthyca'n fewnol. Mater arall yw nad yw incwm y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oherwydd Grant Pensiwn oddeutu £20m yn cael ei dalu mewn cyfandaliad bob mis Gorffennaf. Mae hyn wedi arwain at angen benthyca tymor byr am 6 i 8 mis o'r flwyddyn a dim angen benthyca ychwanegol am y misoedd sy'n weddill. Bydd angen gwarantu benthyca tymor hirach ar ryw bwynt. Mae hyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'n hymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd.

3.9 **Amcanion:** Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca arian yw taro cydbwysedd risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Mae hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau os yw cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid yn amcan eilradd.

3.10 **Strategaeth:** Gan ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn benodol i nawdd llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymdrin â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyled. Gyda chyfraddau llog tymor byr ar hyn o bryd yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i un ai ddefnyddio adnoddau mewnol, neu'n hytrach gael benthyciadau tymor hir.

3.11 Drwy wneud hynny, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu lleihau costau benthyca net (er incwm buddsoddi rhagweladwy) a lleihau risg trysorlys cyffredinol. Monitrir manteision benthyca mewnol / tymor byr yn rheolaidd yn erbyn y posibilrwydd o dynnu costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i flynyddoedd yn y dyfodol pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi'n gymedrol. Gwnaiff Arlingclose gynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda'r 'gost o gario' hon a dadansoddiad a dadansoddiad o dalu costau. Gall eich allbwn benderfynu a yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog tymor hir yn 2019/20 gyda golwg ar gadw costau llog yn y dyfodol yn isel. Mae hyn hyd yn oed os yw'n achosi cost ychwanegol yn y tymor byr.

3.12 Fel arall, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drefnu benthyciadau dechrau yn y dyfodol yn ystod 2019/20, lle mae'r gyfradd llog yn sefydlog o flaen llaw, ond derbynnir yr arian parod yn ddiweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost i'w gyflawni heb ddioddef cost o gynnal yn y cyfnod yn y canol.

3.13 At hyn, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael benthyciadau tymor byr pellach i ofalu am brinder llif arian nas cynlluniwyd.

3.14 Dengys lefelau arfaethedig cyfanswm dyled dros ben y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (sy'n cynnwys benthyca a rhwymedigaethau PFI) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod). Mae'r rhain yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol, sef amseru benthyca tymor hirach.

Tabl 3: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	31.3.18 presennol	**31.3.19 rhagolwg**	**31.3.20 rhagolwg**	**31.3.21 rhagolwg**	**31.3.22 rhagolwg**	**31.3.23 rhagolwg**	**31.3.24 rhagolwg**	**31.3.25 rhagolwg**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
PFI	**11.4**	**10.7**	**9.9**	**9.1**	**8.2**	**7.3**	**6.2**	**5.1**
Benthyciadau Tymor Hir	**1.4**	**0.7**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**
Benthyciadau Tymor Byr	**10.0**	**16.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**
Dyled (yn cynnwys PFI a phrydlesi)	**22.7**	**27.3**	**9.9**	**9.1**	**8.2**	**7.3**	**6.2**	**5.1**
Gofyn Cyllido Cyfalaf	**27.2**	**31.0**	**29.8**	**31.5**	**35.0**	**36.1**	**37.4**	**35.7**

3.15 **Ffynonellau benthyca:** Ffynonellau cymeradwy benthyca tymor hir a thymor byr yw:

- Mewnol
- Swyddfa Rheoli Dyledion y DU (y PWLB yn flaenorol) ac unrhyw gorff olynol
- Awdurdodau lleol a chyrff y DU a ddiffinnir o fod yn awdurdodau lleol
- Tai cymdeithasol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a adwaenir ynghynt fel cymdeithasau tai fel y rheoleiddiwyd gan y Rheolydd Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheolydd Tai'r Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Gymunedau (yng Ngogledd Iwerddon)
- Asiantaethau eraill Llywodraeth y DU
- Prifysgolion
- Cronfeydd pensiwn sectorau cyhoeddus a phreifat y DU (oni bai am Gronfa Bensiwn Gwynedd)
- Banciau masnachol a chymdeithasau adeiladu wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU ac sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr fenthyca
- Banc Buddsoddi Ewrop
- Marchnadoedd cyfalaf (materion stoc, papur masnachol a biliau)
- Cyllid strwythuredig

3.16 **Ffynonellau eraill o gyllid dyled:** Yn ychwanegol, gall cyllid cyfalaf gael ei godi drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyca, ond a all gael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau dyled eraill:

- prydlesu
- hurbrynu
- Menter Cyllid Breifat
- gwerthiant ac adlesu

3.17 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi codi ei holl fenthyca tymor hir o Swyddfa Rheoli Dyledion y DU yn flaenorol. Ond mae'n parhau i ymchwilio ffynonellau cyllid eraill, fel benthyciadau awdurdodau lleol a benthyciadau banc, a all fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

3.18 **Benthyciadau tymor byr a chyfraddau amrywiol**: Mae'r benthyciadau hyn yn gadael y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agored i'r risg o gynnydd cyfradd llog tymor byr ac felly'n amodol ar y terfynau dadlennu cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli'r trysorlys isod.

3.19 **Aildrefnu dyled:** Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn caniatáu awdurdodau i ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd ac un ai talu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn ôl fformiwla wedi'i osod yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Gall benthycwyr eraill fod yn barod hefyd i drafod termau adbrynu cynamserol. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fanteisio ar hyn a disodli rhai benthyciadau gyda benthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb ddisodli. Gwneir hyn os disgwylir iddo arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg.

4. Strategaeth Fuddsoddi

4.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, gan gynrychioli incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi bod rhwng £28 a £10 miliwn. Disgwylir i lefelau tebyg gael eu cynnal yn y flwyddyn i ddod.

4.2 **Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn fwy darbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd uchaf o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas. Os disgwylir i falansau gael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd anelu i gyflawni dychweliad llwyr sy'n gyfartal neu'n uwch na'r gyfradd chwyddiant cyffredinol. Gwneir hyn er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddwyd.

4.3 **Cyfraddau llog negyddol:** Os aiff y DU i ddirwasgiad yn 2019/20, mae siawns fechan y gall Banc Lloegr osod ei Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sy'n debygol o fwydo i gyfraddau llog negyddol ar holl opsiynau buddsoddi risg isel a thymor byr. Mae'r sefyllfa hon eisoes yn bodoli mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop. Ar yr achlysur hwn, mesurir diogelwch fel derbyn y swm a gytunwyd yn gyfamodol ar aeddfedrwydd, er y gall hyn fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol.

4.4 **Strategaeth:** Er bod risg cynyddol ac elw isel iawn o fuddsoddiadau banc anwarantedig tymor byr, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn anelu i barhau i fuddsoddi mewn buddsoddiadau banc tymor byr yn ystod 2019/20. Mae hyn cyd-daro â'r strategaeth fenthyca fewnol, gan leihau'r symiau a fuddsoddir (a risg cysylltiedig) a chwyddo arenillion (drwy leihau taliadau llog).

4.5 **Cynlluniau busnes:** O dan safon IFRS 9 newydd, mae cadw cyfrifon ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "gynllun busnes" y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer eu rheoli. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn anelu i gyflawni gwerth o'i fuddsoddiadau trysorlys a reolir yn fewnol gan gynllun busnes o gasglu'r llif arian cyfamodol. Felly, lle bodlonir meini prawf eraill hefyd, parheir i ateb am y buddsoddiadau hyn am gost wedi'i dileu.

4.6 **Partïon i gontract cymeradwy:** Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o bartïon i gontract yn nhabl 3 isod. Mae hyn yn amodol ar y terfynau arian parod (yn ôl bob parti i gontract) a'r terfynau amser a ddangosir. Mae'r buddsoddiad credyd sylfaenol wedi'i godi o BBB+ i A- yn 2018/19.

Tabl 4: Partïon i gontract a chyfyngiadau'r buddsoddiadau cymeradwy

Statws Credyd	Banciau Anwarantedig	Banciau Gwarantedig	Llywodraeth	Cyrff Corfforaethol
Llywodraeth y DU	Amherthnasol	Amherthnasol	£ Diderfyn	Amherthnasol
AAA	£4m	£7m	£7m	£7m
AA+	£4m	£7m	£7m	£7m
AA	£4m	£7m	£7m	£7m
AA-	£4m	£7m	£7m	£7m
A+	£4m	£7m	£7m	£7m
A	£4m	£7m	£7m	£7m
A-	£4m	£7m	£7m	£7m
HSBC[1]	£10m	£10m	Amherthnasol	Amherthnasol

Awdurdodau Lleol Di-dreth	Amherthnasol	Amherthnasol	£7m	Amherthnasol
Cronfeydd Cronedig		£4m y gronfa		

1 Rhain yw bancwyr y Comisiynydd. Maent ar hyn o bryd â statws AA- gan yr asiantaethau statws credyd. Maent hefyd y sefydliad bancio sydd â'r statws uchaf yn y DU heddiw.

Rhaid i'r tabl hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r nodiadau isod.

4.7 **Statws credyd:** Gosodir terfynau buddsoddiad drwy gyfeirio at y statws credyd tymor hir isaf a gyhoeddwyd o ddetholiad o asiantaethau statws allanol. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth buddsoddiad lle bo'n bosibl. Fel arall defnyddir y statws credyd parti i gontract. Fodd bynnag, ni wneir y penderfyniadau buddsoddi ar sail statws credyd yn unig, ac ystyrir holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol.

4.8 **Banciau anwarantedig:** Cyfrifon, blaendaliadau, tystysgrifau blaendal a banciau anwarantedig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, oni bai am fanciau datblygiad amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar y risg o golli credyd drwy ryddhad os yw'r rheolydd yn penderfynu fod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau o ran cyfrifon banc gweithrediadol.

4.9 **Banciau anwarantedig:** Bondiau a ofelir amdanynt, cytundebau adbrynu gwrthdro a chytundebau cyfochrog eraill gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Gwarantir y buddsoddiadau hyn ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion posibl yn yr achos annhebygol o fethdaliad. Mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio o ryddhad. Defnyddir y statws credyd cyfochrog uchaf a'r statws credyd parti i gontract i benderfynu ar derfynau arian parod ac amser os nad oes statws credyd penodol i fuddsoddiad, ond fod gan y warant gyfochrog y gwarantir y buddsoddiad statws credyd. Ni wnaiff y buddsoddiadau gwarantedig ac anwarantedig mewn un banc fynd tu hwnt i'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau gwarantedig.

4.10 **Llywodraeth:** Benthyciadau, bondiau a biliau a rennir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygiad amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar ryddhad. Fel arfer mae risg is o fethdaliad, er nad ydynt yn risg sero. Gall buddsoddiadau gyda Llywodraeth Ganolog y DU gael eu gwneud mewn symiau anwarantedig am hyd at 50 mlynedd.

4.11 **Cyrff Corfforaethol:** Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a rennir gan gwmnïau oni bai am fanciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar ryddhad. Ond maent yn agored i'r risg o'r cwmni'n mynd yn fethdalwyr. Gwneir benthyciadau i gwmnïau di-dreth ond fel rhan o gronfa amrywiol er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

4.12 **Cronfeydd cronedig:** Cyfranddaliadau neu unedau mewn cerbydau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau buddsoddi uchod, ynghyd â

chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Mae gan y cronfeydd hyn y fantais o roi risgiau amrywiaeth buddsoddi eang, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa proffesiynol yn gyfnewid am ffi. Caiff Cronfeydd Marchnad Arian Tymor byr sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod a chyfnewidioldeb isel iawn neu ddim o gwbl eu defnyddio fel dewis arall i gyfrifon banc mynediad di-oed. Yn y cyfamser, defnyddir cronfeydd cronedig y mae eu gwerthoedd yn newid gyda phrisiau marchnad a/neu sydd â chyfnod rhybudd am gyfnodau buddsoddi hirach.

4.13 Mae cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo yn cynnig elw uwch dros y tymor hirach, ond yn fwy cyfnewidiol yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu'r Heddlu a Throsedd i amrywio i ddosbarthiadau ased oni bai am arian parod heb orfod bod yn berchen neu reoli'r buddsoddiadau sylfaenol. Gan nad oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond sydd ar gael i'w rhyddhau wedi cyfnod rhybudd, caiff eu cyflawniad a'u haddasrwydd parhaus wrth fodloni amcanion buddsoddi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu monitro'n rheolaidd.

4.14 **Cyfrif banc gweithrediadol:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio HSBC fel ei gyfrif banc gweithrediadol. Mae statws HSBC o fewn y statws credyd sylfaenol a osodwyd. Pan fydd y statws yn syrthio o dan y statws sylfaenol, parheir i ddefnyddio HSBC fel y cyfrif banc gweithrediadol hyd nes y gwneir trefniadau eraill.

4.15 **Asesiad risg a statws credyd**: Ceir a monitrir statws credyd gan ymgynghorwyr trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a wnaiff hysbysu am newidiadau mewn statws wrth iddynt ddigwydd. Pan israddir statws credyd endid fel ei fod yn methu bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy:

- ni wneir buddsoddiadau newydd,
- bydd unrhyw fuddsoddiadau sy'n bodoli a all eu hadalw neu eu gwerthu am ddim cost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i'r adalwad neu werthiant holl fuddsoddiadau eraill sy'n bodoli gyda'r parti i gontract a effeithir.

4.16 Os yw asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu am israddiad posibl (a adwaenir hefyd fel "negydd gwylio statws" neu "negydd gwylio credyd") fel ei fod yn syrthio o dan y meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau a ellir eu tynnu [ar y diwrnod gwaith nesaf] a wneir gyda'r sefydliad hwn hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dangos cyfeiriad symudiad tymor hir yn hytrach na newid statws sydd ar fin digwydd.

4.17 **Gwybodaeth arall ar warant buddsoddiadau**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn deall fod statws credyd yn broffwydi diffyg buddsoddiad da, ond nad ydynt yn berffaith. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar safon credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, yn cynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth llywodraeth posibl, adroddiadau yn y

wasg ariannol safonol a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ni wneir buddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarnhaol am ei safon credyd, er y gall fodloni'r meini prawf uchod fel arall.

4.18 Wrth ddirywio mae amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar werth credyd holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011. Ni adlewyrchir hyn yn gyffredinol mewn statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny sydd â safon credyd uwch a lleihau hyd mwyaf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel gwarantiad gofynnol. Bydd graddau'r terfynau hyn yn unol â phrif amodau marchnad ariannol. Os yw'r terfynau hyn yn golygu fod sefydliadau masnachol annigonol o safon credyd uchel ar gael i fuddsoddi ym malansau arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, bydd y gweddill yn cael ei flaendalu gyda Llywodraeth y DU. Gwneir hyn drwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion neu caiff ei fuddsoddi mewn biliau trysorlys y llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi gostyngiad yn y lefel o incwm buddsoddiad a enillir, ond bydd y swm cyfalaf a fuddsoddwyd yn cael ei warchod.

4.19 **Terfynau buddsoddiad**: Rhagwelir y bydd cronfeydd refeniw wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd ar gael i ofalu am golledion buddsoddiad yn £20 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Er mwyn rheoli'r risg hwn, mae terfynau wedi'u gosod fel sy'n nhabl 3. Bydd grŵp o fanciau o dan yr un perchennog yn cael eu trin fel sefydliad unigol at ddibenion terfyn.

4.20 **Rheoli hylifedd**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio cynllun rhagolygu llif arian pwrpasol i benderfynu ar y cyfnod mwyaf y gall cronfeydd gael eu cyflwyno'n ochelgar. Cesglir y rhagolwg ar sail ddoeth i leihau'r risg o'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu gorfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i fodloni ei ymrwymiadau ariannol. Gosodir terfynau ar fuddsoddiadau tymor byr gan gyfeiriad at gynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

5 Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

5.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur a rheoli ei ddadleniadau at risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

5.2 **Gwarantiad:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gosod statws credyd sylfaenol o A- ar gyfer buddsoddiadau.

Dangosydd risg credyd	Targed
Statws credyd sylfaenol ar gyfer buddsoddiad	A-

5.3 **Hylifedd:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis, heb fenthyca ychwanegol.

Dangosydd risg hylifedd	Targed
Cyfanswm arian parod sydd ar gael 12 mis	£10m

5.4 **Amlygiadau cyfradd llog:** Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg cyfradd llog. Mae terfyn uwch ar gyfer amlygiad cyfradd amrywiol wedi'i osod er mwyn sicrhau nad oes amlygiad i gynnydd cyfradd llog a all effeithio'n ddifrifol ar y gyllideb refeniw. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyled gyfradd amrywiol i wneud yn iawn am amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau.

	2018-19 %	2019-20 %	2020-21 %	2021-22 %	2022-23 %	2023-24 %
Terfyn Uchaf am Amlygiad Cyfradd Llog Sefydlog	100	100	100	100	100	100
Terfyn Uchaf am Amlygiad Cyfradd Llog Amrywiol	50	50	50	50	50	50

5.5 **Strwythur aeddfedrwydd benthyca:** Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail ariannu. Terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthyca fydd:

Dangosydd risg cyfradd ail ariannu	Terfyn uchaf	Terfyn isaf
O dan 12 mis	100%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	100%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	100%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	100%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

5.6 **Symiau cyfalaf a fuddsoddir am gyfnodau hirach na blwyddyn:** Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail ariannu. Y terfynau ar y swm cyfalaf tymor hir a fuddsoddwyd i aeddfedrwydd terfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

Dangosydd risg prisiau	**2019/20**	**2020/21**	**2021/22**
Terfyn ar y cyfalaf a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£5m	£5m	£5m

6 Materion Perthnasol

6.1 Mae Cod CIPFA yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

6.2 **Deilliadau Ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol pendant i wneud hynny, ni wnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddefnyddio deilliadau ariannol unigol (megis cyfnewidiadau, symud ymlaen, y dyfodol ac opsiynau). Gall deilliadau wedi'u gosod i fenthyciadau a buddsoddiadau, sy'n cynnwys cronfeydd cronedig ac wedi symud trafodion dechrau ymlaen, eu defnyddio. Rheolir y risgiau a berir yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risgiau'r trysorlys.

6.3 **Marchnadoedd yn y Gyfarwyddeb Cyfryngau Ariannol**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi optio i fyny at statws cleient proffesiynol gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol. Mae'n cynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr cronfa, yn caniatáu mynediad iddo at ystod mwy o wasanaethau ond heb yr amddiffyniadau rheoleiddiol a roddir i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws mwyaf priodol.

6.4 **Canllaw Llywodraeth:** Ceir materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllaw LlC yn Atodiad C.3

7 Goblygiadau Ariannol

7.1 Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddiad yn 2019/20 yw £0.1 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio buddsoddiad cyfartalog o £10 miliwn ar gyfradd llog o 1%. Y gyllideb ar gyfer llog dyled a dalwyd yn 2019/20 yw £0.6 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio dyled cyfartalog o oddeutu £17 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 3.8%. Os yw lefelau buddsoddiadau a benthyca gwirioneddol, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai hynny a ragwelwyd, bydd cyflawniad yn erbyn cyllideb yn gyfatebol wahanol. Gan fod strategaeth benthyca mewnol yn cael ei ddilyn, rhagwelir y bydd y taliadau llog presennol yn sylweddol is na'r gyllideb. Defnyddir y gweddill sydd ar gael i

ariannu gwariant cyfalaf yn uniongyrchol gan felly leihau gofynion benthyca yn y dyfodol.

8 Opsiynau Eraill i'w Hystyried

8.1 Nid yw Canllaw LlC a Chod CIPFA yn nodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Cred y Prif Swyddog Cyllid fod y strategaeth uchod yn dangos cydbwysedd priodol rhwng rheoli risgiau ac effeithiolrwydd cost. Trafodwyd y strategaeth gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ar 21 Mawrth 2019. Rhestri strategaeth eraill, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risgiau, isod.

Dewis arall	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risgiau
Buddsoddi mewn ystod gulach o bartïon i gontract a/neu am amseroedd byrrach	Bydd incwm llog yn is	Llai o siawns am golledion o ddiffygion credyd, ond gall colledion o'r fath fod yn fwy
Buddsoddi mewn ystod ehangach o bartïon i gontract a/neu am amseroedd hirach	Bydd incwm llog yn uwch	Mwy o risg o golledion o ddiffygion credyd, ond gall colledion o'r fath fod yn llai
Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog tymor hir	Gwnaiff costau llog dyledion godi. Mae hyn yn annhebygol o gael ei unioni gan incwm buddsoddiad uwch	Balans buddsoddiad uwch yn arwain at effaith uwch pan mae diffyg. Fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn fwy penodol
Benthyca benthyciadau tymor byr neu amrywiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog tymor hir	Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau	Bydd cynnydd mewn costau llog dyledion yn cael eu hunioni'n eang drwy godi incwm buddsoddiad yn y tymor canolog, ond gall costau tymor hir fod yn llai sicr
Lleihau lefel benthyca	Mae arbed ar log dyledion yn debygol o fynd tu hwnt i incwm buddsoddiad a gollwyd	Balans buddsoddiad gostyngol yn arwain at effaith is pan mae diffyg. Fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn llai sicr

Atodiad C.1

Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose Rhagfyr 2018

Tybiaethau sylfaenol:

- Honnir ein rhagolygon cyfradd llog canolog y bydd cyfnod newidiol yn dilyn ymadawiad swyddogol y DU o'r UE.
- Mae gan y PPA duedd at bolisi ariannol tynnach ond mae'n amharod i wthio disgwyliadau cyfradd llog yn rhy gryf. Credwn fod aelodau PPA yn ystyried: 1) y bydd marchnadoedd llafur tynn yn peri pwysau chwyddiant yn y dyfodol, 2) bydd cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd eraill, a 3) bydd cyfradd banc uwch yn arf polisi mwy effeithiol os yw risgiau gostyngiad i dwf yn crisialu.

- Mae ein rhagolwg arfaethedig a'r cynnydd ym maint risgiau gwleidyddol ac economaidd sy'n wynebu economi'r DU yn golygu ein bod yn cynnal risgiau gostyngiad i'n rhagolygon, er y posibilrwydd am dwf ychydig yn gryfach y flwyddyn nesaf wrth i fuddsoddiad busnes adlamu os cymeradwyir Cytundeb Gadael yr UE. Mae'r posibilrwydd am ganlyniadau economaidd difrifol wedi cynyddu yn dilyn derbyniad gwael y Cytundeb Gadael gan ASau. Disgwyliwn i Fanc Lloegr gynnal neu leihau cyfraddau llog o lefelau presennol os daw risgiau Brexit.
- Mae amgylchfyd economaidd y DU yn eithaf meddal, er bod data marchnad lafur i'w gweld yn gryf. Adferodd twf GDP rhywfaint yn chwarteri canol 2018, ond mae data mwy diweddar yn awgrymu fod yr economi wedi arafu'n amlwg yn Ch4. Ein barn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolwg heriol wrth i'r wlad adael yr Undeb Ewropeaidd ac wrth i dwf economaidd Ardal yr Ewro feddalu.
- Mae pwysau costau yn esmwytháu ond rhagwelir y bydd chwyddiant yn parhau uwchben targed y Banc o 2% drwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod rhagolwg. Mae prisiau olew is wedi lleihau pwysau chwyddiant, ond mae'r farchnad lafur dynn a'r dirywiad yng ngwerth y bunt yn golygu y gall chwyddiant barhau uwchben y targed yn hirach nag y disgwyliwyd.
- Mae twf economaidd byd-eang yn arafu. Er twf arafach, mae Banc Canolog Ewrop yn cyflyru marchnadoedd ar gyfer diwedd esmwytho meintiol, amseru'r naid gyfradd gyntaf (2019) a'u llwybr wedi hynny. Mae data diweddar o'r UD wedi gosod pwysau ar y Gronfa wrth Gefn Ffederal i leihau cyflymder tynhau ariannol. Bydd neidiau blaenorol a disgwyliadau dwysach, fodd bynnag, yn arafu twf economaidd.
- Mae camau'r banc canolog a risgiau geowleidyddol wedi ac yn parhau i greu cyfnewidioldeb sylweddol mewn marchnadoedd ariannol, gan gynnwys marchnadoedd bondiau.

Rhagolwg:

- Mae'r PPA wedi cynnal disgwyliad o gynnydd araf mewn cyfraddau llog dros y gorwel rhagolwg. Ond mae digwyddiadau diweddar ynghylch Brexit wedi drysu disgwyliadau cyfraddau llog. Ein hachos canolog yw i'r Gyfradd Banc godi ddwywaith yn 2019, ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r risgiau'n cael eu pwysoli i'r dirywiad.
- Mae arenillion gilt wedi parhau ar lefelau isel. Rydym yn disgwyl symudiad at i fyny o lefelau presennol yn seiliedig ar ein hachos canolog y gwnaiff y DU fynd i gyfnod newidiol yn dilyn ei hymadawiad o'r UE ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, gwnaiff ein rhagolwg economaidd a chyfnewidioldeb gwan arfaethedig sy'n codi o'r digwyddiadau economaidd a gwleidyddol barhau i gynnig cyfleoedd benthyca.

	Dec-18	Mar-19	Jun-19	Sep-19	Dec-19	Mar-20	Jun-20	Sep-20	Dec-20	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Average
Official Bank Rate														
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	**0.17**
Arlingclose Central Case	**0.75**	**0.75**	**1.00**	**1.00**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.25**	**1.13**
Downside risk	0.00	-0.50	-0.75	-0.75	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	-1.00	**-0.85**
3-mth money market rate														
Upside risk	0.10	0.10	0.10	0.10	0.15	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	**0.17**
Arlingclose Central Case	**0.90**	**0.95**	**1.10**	**1.30**	**1.40**	**1.40**	**1.40**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.27**
Downside risk	-0.20	-0.45	-0.60	-0.80	-0.90	-0.90	-0.90	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	**-0.76**
1-yr money market rate														
Upside risk	0.20	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	**0.33**
Arlingclose Central Case	**1.15**	**1.25**	**1.35**	**1.50**	**1.70**	**1.60**	**1.50**	**1.40**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.35**	**1.40**
Downside risk	-0.35	-0.50	-0.60	-0.80	-0.90	-0.90	-0.90	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	**-0.77**
5-yr gilt yield														
Upside risk	0.25	0.30	0.30	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	**0.37**
Arlingclose Central Case	**1.15**	**1.25**	**1.35**	**1.50**	**1.50**	**1.40**	**1.35**	**1.35**	**1.30**	**1.30**	**1.30**	**1.30**	**1.30**	**1.33**
Downside risk	-0.50	-0.60	-0.65	-0.80	-0.80	-0.70	-0.65	-0.65	-0.65	-0.65	-0.65	-0.65	-0.65	**-0.66**
10-yr gilt yield														
Upside risk	0.25	0.30	0.30	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	**0.37**
Arlingclose Central Case	**1.50**	**1.65**	**1.70**	**1.80**	**1.80**	**1.75**	**1.75**	**1.70**	**1.70**	**1.70**	**1.70**	**1.70**	**1.70**	**1.70**
Downside risk	-0.55	-0.70	-0.70	-0.80	-0.80	-0.75	-0.75	-0.70	-0.70	-0.70	-0.70	-0.70	-0.70	**-0.71**
20-yr gilt yield														
Upside risk	0.25	0.30	0.30	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	**0.37**
Arlingclose Central Case	**2.00**	**2.10**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.20**	**2.18**
Downside risk	-0.60	-0.70	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	**-0.73**
50-yr gilt yield														
Upside risk	0.25	0.30	0.30	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	**0.37**
Arlingclose Central Case	**1.90**	**1.95**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**2.00**	**1.99**
Downside risk	-0.60	-0.70	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	-0.75	**-0.73**

PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%

PWLB Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

Atodiad C.2

Sefyllfa Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion Presennol

	31/03/19 **Portffolio Presennol (gyda symudiadau arfaethedig hyd at ddiwedd y flwyddyn ac yn amodol ar wiriadau diwedd blwyddyn)** **£m**
Benthyca Allanol: Cyfradd Sefydlog – Swyddfa Ddyledion Cyfradd Sefydlog – Llywodraeth Leol **Cyfanswm Benthyca Allanol**	 0.655 16.000 16.655
Rhwymedigaethau Tymor Hir Arall: - PFI - Prydlesi Cyllid	 10.660 0.00
Cyfanswm Dyled Allanol Gros	27.315
Buddsoddiadau: *Wedi rheoli'n fewnol* - Arian tymor byr (blaendaliadau/arian ar alw/MMFs) - Buddsoddiadau tymor hir *Rheolwyd yn allanol* - Gan Reolwyr Cronfa - Cronfeydd Cronedig *(rhestrwch)*	 -15.040 0.00 0.00
Cyfanswm Buddsoddiadau	-15.040
Dyled Net	12.275

Atodiad C.3

Gofynion ychwanegol Canllaw Llywodraeth Cymru

Buddsoddiadau penodol: Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau manwl fel y rhai hynny:

- a enwyd mewn punt sterling,
- sydd i fod i gael ei ad-dalu o fewn 12 mis o drefniant,
- nas diffinnir fel gwariant cyfalaf yn ôl deddfwriaeth, a
- buddsoddwyd gydag un:
  - Llywodraeth y DU,
  - Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol yn y DU, Comisiynydd Heddlu a Throsedd plwyf neu Gomisiynydd Heddlu a Throsedd cymunedol, neu
  - corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai hynny sydd â statws credyd o A- neu'n uwch a leolir yn y DU neu wlad dramor gyda statws sofran o AA+ neu'n uwch. Diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai hynny sydd â statws credyd o A- neu'n uwch mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cronedig eraill.

Buddsoddiadau heb eu nodi: Dosberthir unrhyw fuddsoddiad sydd ddim yn bodloni'r diffiniad o fuddsoddiad penodol fel heb ei nodi. Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau a enwir mewn arian tramor neu unrhyw rai a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf. Bydd buddsoddiadau heb eu nodi felly yn gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir, h.y. y rhai hynny sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu'n hirach o ddyddiad trefniant ac yn gyfyngedig i ddim mwy na £5m.

Hyfforddiant buddsoddiad: Asesir anghenion staff rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd am hyfforddiant mewn rheoli buddsoddiadau yn rheolaidd ac yn ychwanegol pan mae cyfrifoldebau aelodau unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau, seminarau a chynadleddau hyfforddiant yn rheolaidd a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol o CIPFA, Cymdeithas Trysoryddion Corfforaethol a sefydliadau priodol eraill.

Ymgynghorwyr buddsoddiad: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar fuddsoddiad, dyled a materion cyllid cyfalaf. Rheolir ansawdd y gwasanaeth hwn gan gyfarfodydd strategaeth rheolaidd, adolygu data a ddarparwyd a synnwyr proffesiynol.

Buddsoddi arian a fenthycwyd o flaen angen: Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, o dro i dro, fenthyca o flaen angen, lle disgwylir i hyn ddarparu gwerth am arian tymor hir gorau. Gan y buddsoddir symiau a fenthyciwyd hyd nes y gwarir hwy, mae'r Comisiynydd Heddlu a

Throsedd yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg golli'r symiau a fenthyciwyd a'r risg y gall buddsoddiadau a benthyg cyfraddau llog newid yn y canol. Rheolir y risgiau hyn fel rhan o reolaeth gyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'i risgiau trysorlys.

Ni wnaiff y cyfanswm a fenthycwyd fynd tu hwnt i'r terfyn benthyca awdurdodedig o £35 miliwn. Disgwylir i'r cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwariant fod yn ddwy flynedd, er nid oes angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.